**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 27 Chwefror 2019 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Doyle (Is-Gadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | B Hopkins | Y V Jardine |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Allison Williams | Rheolwr Adnoddau Teuluoedd |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing, L R Jones a/ac A Pugh

---

**49 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**50 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2019 fel cofnod cywir.

**51 Cyflwyniad - Cyflwyniad Abertawe'n Gweithio a'r Fargen Ddinesig.**

Rhoddwyd cyflwyniad ar y cyd gan Rachel Moxey, Pennaeth Tlodi a'i Atal ac Elliott Williams, Rheolwr Ariannu Allanol ar Adfywio Dinas Abertawe ac Abertawe'n Gweithio.

Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Rhaglen adfywio'r ddinas;
- Safleoedd blaenoriaeth allweddol;
- Cynnydd yng ngham y sector preifat/cynigion hyd yn hyn;
- Man cyhoeddus Ffordd y Brenin

- Buddion rhaglen a buddsoddiadau adfywio canol y ddinas;
- Abertawe'n Gweithio - sefydliadau ac adfywio.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Swyddi gwag yn cael eu llenwi gan bobl leol, nodi'r bwlch sgiliau a sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb er mwyn galluogi sgiliau;
- Effaith - cael amgylchedd gwell a chyfoeth cyffredinol;
- Cael y di-waith/rhai sy'n derbyn tâl isel i gyrraedd y lefel nesaf/cyflogaeth a chael eu hyfforddi'n well;
- Canolbwyntio ar y bobl y maent yn anos eu cyrraedd;
- Sefydliadau'n prynu eiddo yn ardal Ffordd y Brenin a gwella rhai hen adeiladau yn yr ardal.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Cylchredeg y cyflwyniad i'r pwyllgor.

**52 Cyflwyniad - Gofal Plant Estynedig.**

Rhoddwyd cyflwyniad ar Ofal Plant Estynedig gan Allison Williams, Rheolwr Adnoddau Teuluoedd,

Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Y Cynnig Gofal Plant i Gymru;
- Cyflwyniad;
- Grantiau yn Abertawe;
- Beth yw'r Cynnig Gofal Plant?
- Ein hymagwedd;
- Beth sydd ar gael, cyfalaf etc;
- Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Ffigurau hyd yn hyn/dadansoddiad o geisiadau o godau post;
- Camau nesaf.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol. Cafwyd trafodaethau am y canlynol: -

- Costau penodol a gwersi a ddysgwyd o'r model a ddefnyddiwyd yn Lloegr;
- Sut mae'r cynllun yn cefnogi rhieni sy'n gweithio;
- Y swm enfawr o waith a gwblhawyd gan staff;
- Dethol wardiau llwyddiannus yn Abertawe;
- Rhesymau pam y bu rhai wardiau'n aflwyddiannus.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Cylchredeg y cyflwyniad i'r pwyllgor.

**53 Cynllun Gwaith 2018-2019.**

Rachel Moxey - Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**54 Rachel Moxey - Pennaeth Tlodi a'i Atal.**

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, i Rachel Moxey, Pennaeth Tlodi a'i Atal am ei gwaith gyda'r pwyllgor gan ddymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd gyda Chyngor Sir Penfro.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.00 pm

**Cadeirydd**